CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU | **NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L | S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2000 Rhif 3384 (Cy. 222)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol (Cymru) 2000

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diffinio'r trefniadau ymgymhwyso y cyfeirir atynt yn adran 105 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 ac yn darparu ar gyfer talu grantiau i bersonau sy'n bartïon i drefniadau ymgymhwyso (sef personau a ddiffinnir yn y Rheoliadau fel "deiliaid cyfrif dysgu unigol").

Ymdrin â threfniadau ymgymhwyso y mae Rheoliadau 2 i 4. Rhaid i'r trefniadau hyn fod ar ffurf cofrestru gan berson cymwys gyda chorff a gymeradwyir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Rheoliad 3 yn nodi amodau cymhwyster sy'n cynnwys preswylio yng Nghymru (neu preswylio dros dro y tu allan i Gymru Unedig adeg cofrestru ond preswylio'n gyffredin yng Nghymru). Er hynny, o dan amgylchiadau penodol fe fydd trefniadau ymgymhwyso o dan ddarpariaethau cyfatebol a fydd yn gymwys yn Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn drefniadau ymgymhwyso o dan y Rheoliadau hyn.

Yn Rheoliadau 5 i 8 darperir ar gyfer talu grantiau mewn perthynas â deiliaid cyfrif dysgu unigol. Mae Rheoliad 5 yn darparu ar gyfer y pŵer i dalu grantiau. Mae Rheoliad 6 yn darparu y gall grantiau gael eu talu mewn perthynas ag unrhyw addysg neu hyfforddiant a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru heblaw addysg uwchradd neu addysg uwch amser-llawn. Yn Rheoliad 7 darperir mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n penderfynu swm y grant ac mae Rheoliad 8 yn cynnwys amrywiaeth o ddarpariaethau atodol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer talu'r grant i'r person sy'n darparu'r addysg neu'r hyfforddiant.

2000 No. 3384 (W. 222)

EDUCATION, WALES

The Individual Learning Accounts (Wales) Regulations 2000

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations define "qualifying arrangements", referred to in section 105 of the Learning and Skills Act 2000 and provide for payment of grants to persons who are parties to qualifying arrangements (such persons being defined in the Regulations as "individual learning account holders").

Regulations 2 to 4 deal with qualifying arrangements. They must take the form of registration by an eligible person with a body approved by the National Assembly for Wales and Regulation 3 sets out conditions of eligibility which include residence in Wales (or temporary residence outside Wales at the time of registration but ordinary residence in Wales). However in certain circumstances qualifying arrangements under corresponding provisions applying in England, Scotland or Northern Ireland will be qualifying arrangements under these Regulations.

Regulations 5 to 8 provide for the payment of grants in respect of individual learning account holders. Regulation 5 provides for the power to pay grants. Regulation 6 provides that grants may be paid in respect of any education or training specified by the National Assembly for Wales other than secondary or full-time higher education. Regulation 7 provides for the amount of grant to be decided by the National Assembly for Wales and Regulation 8 contains various supplementary provisions including provision for the payment of grant to the person providing the education or training.

Yn Rheoliadau 9 a 10 ceir darpariaethau ar gyfer penderfynu ar breswylfa aelodau'r lluoedd arfog a darpariaethau trosiannol.

Regulations 9 and 10 contain respectively provisions for determining the residence of members of the armed forces and transitional provisions.

OFFERYNNAU STATUDOL

2000 Rhif 3384 (Cy. 222)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol (Cymru) 2000

Wedi'u gwneud 12 Rhagfyr 2000

Yn dod i rym 1 Ionawr 2001

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 105, 108, 150 a 152 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**a**):

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1. —(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2001.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "deiliad cyfrif dysgu unigol" (*"individual learning account holder"*) yw person sy'n barti i drefniadau ymgymhwyso (fel y'u pennir yn rheoliad 2);

ystyr "y Ddeddf" (*"the Act"*) yw Deddf Dysgu a Medrau 2000;

ystyr "gweinyddydd cyfrifon dysgu" (*"learning account administrator"*) yw corff sy'n darparu neu'n trefnu addysg a hyfforddiant neu sy'n cynorthwyo i'w darparu ac iddo'r fantais o fod wedi'i gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 105(5) o'r Ddeddf at ddibenion y Rheoliadau hyn, heb fod y gymeradwyaeth wedi'i thynnu'n ôl; ac

mae i "person cymwys" (*"eligible person"*) yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 3.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(**a**) 2000 p.21.

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 No. 3384 (W. 222)

EDUCATION, WALES

The Individual Learning Accounts (Wales) Regulations 2000

Made 12th December 2000

Coming into force 1 January 2001

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on it by sections 105, 108, 150 and 152 of the Learning and Skills Act 2000(**a**):

Citation, commencement interpretation and application

1. —(1) These Regulations may be cited as the Individual Learning Accounts (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 1 January 2001.

(2) In these Regulations—

"the Act" (*"y Ddeddf"*) means the Learning and Skills Act 2000;

"eligible person" (*"person cymwys"*) has the meaning given in regulation 3;

"learning account administrator" (*"gweinyddydd cyfrifon dysgu"*) means a body providing, arranging or supporting the provision of education and training which has the benefit of an approval given by the National Assembly for Wales under section 105(5) of the Act for the purposes of these Regulations and not withdrawn; and

"individual learning account holder" (*"deiliad cyfrif dysgu unigol"*) means a person who is a party to qualifying arrangements (as specified in regulation 2).

(3) These Regulations apply only in relation to Wales.

(**a**) 2000 c. 21.

Trefniadau ymgymhwyso

2. —(1) At ddibenion adran 105 o'r Ddeddf mae trefniadau yn gymwys o dan yr adran honno mewn perthynas â Chymru—

(a) os ydynt ar ffurf cofrestru gan berson cymwys gyda gweinyddydd cyfrifon dysgu; a

(b) os nad yw'r cofrestriad wedi'i ddileu neu wedi'i dynnu'n ôl yn unol â rheoliad 4.

(2) At ddibenion adran 105 o'r Ddeddf mae trefniadau yn gymwys hefyd o dan yr adran honno mewn perthynas â Chymru os ydynt—

(a) yn drefniadau sy'n gymwys o dan adran 105 o'r Ddeddf yn rhinwedd rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr; neu

(b) yn drefniadau sy'n gymwys o dan adran 106 o'r Ddeddf; neu

(c) yn drefniadau sy'n gymwys o dan unrhyw ddarpariaeth yn un o Ddeddfau Senedd yr Alban sy'n cyfateb i adran 105 o'r Ddeddf,

ac os yw'r person sy'n barti iddynt yn berson cymwys neu yn bodloni'r amodau ym mharagraff (3) isod.

(3) Yr amodau yw—

(a) bod y person yn preswylio yng Nghymru; a

(b) bod grant wedi'i dalu mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant y person yn unol â'r canlynol—

(i) rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr o dan adran 108 o'r Ddeddf;

(ii) rheoliadau o dan adran 109 o'r Ddeddf; neu

(iii) rheoliadau o dan unrhyw un o Ddeddfau Senedd yr Alban sy'n cyfateb i adran 108 o'r Ddeddf.

(4) At ddibenion paragraff (3) mae person yn preswylio yng Nghymru os yw'n preswylio yno dros dro neu yn barhaol (oni bai bod rheoliad 9 yn gymwys).

Ystyr Person Cymwys

3. —(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn mae person yn berson cymwys os yw'n bodloni'r amodau a geir ym mharagraffau (2) i (4) isod ar ddyddiad y cofrestru.

(2) Yr amod cyntaf yw bod y person wedi cyrraedd 18 mlwydd oed ar ddyddiad y cofrestru.

(3) Yr ail amod yw bod y person—

(a) yn ddinesydd Prydeinig;

Qualifying arrangements

2. —(1) For the purposes of section 105 of the Act arrangements qualify under that section in relation to Wales if—

(a) they take the form of registration by an eligible person with a learning account administrator; and

(b) the registration has not been cancelled or withdrawn in accordance with regulation 4.

(2) For the purposes of section 105 of the Act arrangements also qualify under that section in relation to Wales if they are—

(a) arrangements which qualify under section 105 of the Act by virtue of regulations made by the Secretary of State in relation to England ; or

(b) arrangements which qualify under section 106 of the Act; or

(c) arrangements which qualify under any provision of an Act of the Scottish Parliament which corresponds to section 105 of the Act,

and if the person who is a party to them is an eligible person or satisfies the conditions in paragraph (3) below.

(3) The conditions are—

(a) that the person is resident in Wales; and

(b) that a grant has been paid in respect of the person's education and training pursuant to—

(i) regulations made by the Secretary of State in relation to England under section 108 of the Act;

(ii) regulations under section 109 of the Act; or

(iii) regulations under any Act of the Scottish Parliament which corresponds to section 108 of the Act.

(4) For the purposes of paragraph (3) a person is resident in Wales if that person is temporarily or permanently resident there (unless regulation 9 applies).

Meaning of Eligible Person

3. —(1) For the purposes of these Regulations a person is an eligible person if that person satisfies the conditions contained in paragraphs (2) to (4) below at the date of registration.

(2) The first condition is that the person has attained the age of 18 at the date of registration.

(3) The second condition is that the person—

(a) is a British citizen;

(b) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig o fewn ystyr adran 33(2A) o Ddeddf Mewnfudo 1971(**a**);

(c) yn ffoadur, yn preswylio'n gyffredin yn y Deyrnas Unedig, nad yw wedi peidio â phreswylio felly ers cael ei gydnabod yn ffoadur, neu yn briod, yn blentyn neu'n llys-blentyn i ffoadur o'r fath;

(ch) yn berson sydd—

(i) wedi'i hysbysu gan berson yn gweithredu o dan awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref y credir ei bod yn iawn iddo aros yn y Deyrnas Unedig er na fernir ei fod yn gymwys i gael ei gydnabod yn ffoadur;

(ii) wedi cael caniatâd i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny; a

(iii) wedi bod yn preswylio'n gyffredin yn y Deyrnas Unedig drwy gydol y cyfnod ers cael caniatâd i ddod i mewn neu i aros,

neu yn briod, yn blentyn neu'n llys-blentyn i berson o'r fath; neu

(d) yn berson nad yw'n perthyn o fewn paragraffau (a) i (ch) ond yn wladolyn un o aelod-wladwriaethau Ardal Economaidd Ewrop sy'n gweithio yn y Deyrnas Unedig neu yn briod, yn blentyn neu'n llys-blentyn i berson o'r fath.

(4) Y trydydd amod yw bod y person, adeg y cofrestru, naill ai—

(a) yn preswylio yng Nghymru; neu

(b) yn preswylio y tu allan i Gymru dros dro ond yn preswylio'n gyffredin yng Nghymru (oni bai bod rheoliad 9 yn gymwys).

(5) At ddibenion paragraff (4) mae person yn preswylio yng Nghymru os yw'n preswylio yno dros dro neu yn barhaol.

Cofrestru – Cyffredinol

4. —(1) Caiff gweinyddydd cyfrifon dysgu ei gwneud yn ofynnol bod ceisydd am gofrestru yn darparu unrhyw wybodaeth neu ddogfennau y bydd y gweinyddydd cyfrifon dysgu yn penderfynu arnynt er mwyn i'r gweinyddydd cyfrifon dysgu benderfynu a yw'r person yn berson cymwys a chaiff wrthod derbyn cais am gofrestru oni bai bod yr wybodaeth honno neu'r dogfennau hynny yn cael eu darparu.

(**a**) 1971 p.77; diwygiwyd a mewnosodwyd is-adran (2A), gan Ddedf Cenedligrwydd 1981 (p. 61), adran 39 ac Atodlen 4.

(b) is settled in the United Kingdom within the meaning of section 33(2A) of the Immigration Act 1971(**a**);

(c) is a refugee, ordinarily resident in the United Kingdom who has not ceased to be so resident since that person was recognised as a refugee, or who is the spouse, child, or stepchild of such a refugee;

(d) is a person who—

(i) has been informed by a person acting under the authority of the Secretary of State for the Home Department that, although that person is considered not to qualify for recognition as a refugee, it is thought right to allow that person to remain in the United Kingdom,

(ii) has been granted leave to enter or remain accordingly; and

(iii) has been ordinarily resident in the United Kingdom throughout the period since that person was granted leave to enter or remain,

or who is the spouse, child or stepchild of such a person; or

(e) is a person not falling within paragraphs (a) to (d) but is a national of a member state of the European Economic Area who is working in the United Kingdom or the spouse, child or stepchild of such a person.

(4) The third condition is that at the time of registration the person was either

(a) resident in Wales or

(b) temporiarily resident outside Wales but ordinarily resident in Wales (unless regulation 9 applies).

(5) For the purposes of paragraph (4) a person is resident in Wales if that person is temporarily or permanently resident there.

Registration – General

4. —(1) A learning account administrator may require an applicant for registration to provide such information or documents as the learning account administrator may determine in order for the learning account administrator to determine whether the person is an eligible person and may decline to accept an application for registration unless such information or documents are provided.

(**a**) 1971 c.77; amended, and subsection (2A) inserted, by the British Nationality Act 1981 (c.61), section 39 and Schedule 4.

(2) Caiff gweinyddydd cyfrifon dysgu ddileu cofrestriad ar unrhyw adeg—

(a) os yw'r person yn peidio â bod yn berson cymwys; neu

(b) os yw'n ymddangos i'r gweinyddydd cyfrifon dysgu fod unrhyw wybodaeth a ddarparwyd o dan baragraff (1) yn ffug o ran manylyn perthnasol.

(3) Caiff person sydd wedi cofrestru gyda gweinyddydd cyfrifon dysgu dynnu ei gofrestriad yn ôl ar unrhyw adeg.

(4) Os yw person yn barti i drefniadau ymgymhwyso ni fydd unrhyw gofrestriad dilynol gyda gweinyddydd cyfrifon dysgu yn dwyn unrhyw effaith.

Grantiau i ddeiliaid cyfrif dysgu unigol neu mewn perthynas â hwy

5. Gall grantiau gael eu talu yn unol â rheoliadau 6 i 8 isod mewn perthynas â deiliaid cyfrif dysgu unigol mewn cysylltiad ag unrhyw addysg neu hyfforddiant y maent yn bwriadu ymgymryd â hwy—

(a) os nad yw'r deiliad cyfrif dysgu unigol, adeg talu'r grant, yn cael unrhyw ysgoloriaeth, grant neu lwfans arall sy'n cael eu talu o gronfeydd cyhoeddus mewn perthynas â chost gyfan yr addysg neu'r hyfforddiant o dan sylw; a

(b) os yw'r addysg neu'r hyfforddiant yn perthyn o fewn rheoliad 6.

Yr addysg a'r hyfforddiant y gellir talu grant ar eu cyfer

6. —(1) Yr addysg neu'r hyfforddiant y cyfeirir atynt yn rheoliad 5 yw unrhyw addysg neu hyfforddiant heblaw addysg eithriedig sydd—

(a) o fath a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn unrhyw ffordd y gwêl yn dda; a

(b) yn cael eu darparu gan berson sydd wedi cofrestru gyda gweinyddydd cyfrifon dysgu ac nad yw ei gofrestriad wedi'i dynnu'n ôl.

(2) Yn y rheoliad hwn, addysg eithriedig yw—

(a) addysg uwchradd (o fewn ystyr "secondary education" yn adran 2 o Ddeddf Addysg 1996(**a**)); neu

(b) addysg uwch (hynny yw addysg a ddarperir drwy gyfrwng cwrs amser-llawn o unrhyw ddisgrifiad a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**b**)).

(2) A learning account administrator may at any time cancel a registration if—

(a) the person ceases to be an eligible person; or

(b) it appears to the learning account administrator that any information provided under paragraph (1) was false in a material particular.

(3) A person who has registered with a learning account administrator may at any time withdraw the registration.

(4) Where a person is a party to qualifying arrangements any subsequent registration with a learning account administrator shall be of no effect.

Grants to or in respect of individual learning account holders

5. Grants may be paid in accordance with regulations 6 to 8 below in respect of individual learning account holders in connection with any education or training proposed to be undertaken by them where—

(a) the individual learning account holder at the time of payment of the grant is not in receipt of any scholarship, grant or other allowance paid out of public funds in respect of the whole cost of the education or training in question; and

(b) the education or training falls within regulation 6.

Education and training for which grant can be paid

6. —(1) The education or training referred to in regulation 5 is any education or training other than excepted education which is—

(a) of a kind specified by the National Assembly for Wales in any way it thinks fit; and

(b) provided by a person who has registered with a learning account administrator and whose registration has not been withdrawn.

(2) In this regulation excepted education is—

(a) secondary education (within the meaning of section 2 of the Education 1996(**a**)); or

(b) higher education (that is to say education provided by means of a full-time course of any description mentioned in Schedule 6 to the Education Reform Act 1988(**b**)).

(**a**) 1996 p.56.
(**b**) 1988 p.40.

(**a**) 1996 c.56.
(**b**) 1988 c.40.

Swm y grant

7. Cynulliad Cenedlaethol Cymru fydd yn penderfynu ar swm y grant y gellir ei dalu i ddeiliad cyfrif dysgu unigol neu mewn perthynas â deiliad cyfrif dysgu unigol.

Amount of grant

7. The amount of grant which may be paid to or in respect of an individual learning account holder shall be decided by the National Assembly for Wales.

Grant – darpariaeth atodol

8. —(1) Caiff grantiau eu talu ar yr adegau ac yn y rhandaliadau a benderfynir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (ac yn benodol caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru benderfynu na thelir grant nes bod y person ei hun wedi gwneud unrhyw daliad neu wedi sicrhau y telir unrhyw daliad tuag at gostau'r addysg neu'r hyfforddiant sy'n angenrheidiol).

(2) I'r person sy'n darparu'r addysg neu'r hyfforddiant y telir y grant.

(3) Gall grantiau gael eu talu ar y telerau a benderfynir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gall y telerau hynny gynnwys telerau yn ei gwneud yn ofynnol bod rhan neu'r cyfan o'r grant yn cael ei ad-dalu—

(a) os na chaiff yr addysg neu'r hyfforddiant o dan sylw eu darparu;

(b) os nad yw'r deiliad cyfrif dysgu unigol yn ymgymryd â'r addysg neu'r hyfforddiant; neu

(c) os na chydymffurfir ag unrhyw delerau eraill y talwyd y grant arnynt.

(4) Gall grantiau gael eu talu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu gan weinyddydd cyfrifon dysgu o dan drefniadau a wneir gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac os gwneir trefniadau o'r fath caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru dalu tâl neu symiau i dalu ei gostau i'r gweinyddydd cyfrifon dysgu.

Grant supplementary provision

8. —(1) Grants shall be paid at such times and in such instalments as the National Assembly for Wales may decide (and in particular the National Assembly for Wales may decide that a grant shall not be paid until the person has made or secured the making of any payment towards the costs of the education or training as is necessary).

(2) Grant shall be paid to the person providing the education or training.

(3) Grants may be paid on such terms as the National Assembly for Wales decides and those terms may include terms requiring repayment of the whole or part of the grant if—

(a) the education or training in question is not provided,

(b) the individual learning account holder does not undertake the education or training; or

(c) any other terms on which the grant was paid are not complied with.

(4) Grants may be paid by the National Assembly for Wales or by a learning account administrator under arrangements made with the National Assembly for Wales and if such arrangements are made the National Assembly for Wales may pay the learning account administrator remuneration or amounts to meet its expenses.

Preswylfa aelodau'r lluoedd arfog

9. —(1) At ddibenion y rheoliadau hyn penderfynir ar breswylfa aelod o lynges, byddin neu awyrlu y Goron ("aelod o'r lluoedd arfog") yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Oni bai bod paragraff (3) yn gymwys, ymdrinnir ag aelod o'r lluoedd arfog fel pe bai'n preswylio yn y sefydliad lle mae'n gwasanaethu am y tro.

(3) Os yw'r aelod o'r lluoedd arfog yn gwasanaethu mewn sefydliad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, ymdrinnir â'r aelod hwnnw fel pe bai'n preswylio yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig lle bu'n gwasanaethu yn fwyaf diweddar, gan anwybyddu unrhyw sefydliad

Residence of members of the armed forces

9. —(1) For the purpose of these regulations the residence of a member of the naval, military or air force of the Crown ("a member of the armed forces") shall be determined in accordance with paragraphs (2) and (3).

(2) Unless paragraph (3) applies a member of the armed forces shall be treated as resident at the establishment where that member of the armed forces is for the time being serving.

(3) Where the member of the armed forces is serving at an establishment outside the United Kingdom that member shall be treated as resident at the establishment in the United Kingdom where that member most recently served, disregarding any

(**a**) 1988 p.40.

lle bu'n gwasanaethau am gyfnod o lai na mis.

Darpariaethau Trosiannol

10. Ymdrinnir ag unrhyw berson cymwys a oedd, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, yn barti i drefniadau a elwid yn Gyfrif Dysgu Unigol a wnaed gan Gyngor Hyfforddi a Menter, (yn ddarostyngedig i reoliad 4(4)) fel pe bai wedi'i gofrestru gyda gweinyddydd cyfrifon dysgu a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 105(5) o'r Ddeddf o'r dyddiad y rhoddwyd y gymeradwyaeth honno.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

12 Rhagfyr 2000

establishment at which that member served for a period of less than a month.

Transitional Provisions

10. Any eligible person who, before the coming into force of these Regulations, was a party to arrangements known as an Individual Learning Account made by a Training and Enterprise Council shall, (subject to regulation 4(4)), be treated as registered with a learning account administrator approved by the National Assembly for Wales under section 105(5) of the Act as of the date when such approval is given.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

12th December 2000

D. Elis Thomas

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

The Presiding Officer of the Assembly

(**a**) 1998 p.38.

(**a**) 1998 c. 38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2000 Rhif 3384 (Cy. 222)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol (Cymru) 2000

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 No. 3384 (W. 222)

EDUCATION, WALES

The Individual Learning Accounts (Wales) Regulations 2000

©℞ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090162-2

9 780110 901626

£2.50

W/168/03/01 ON